Archwilio Cymru
Audit Wales

# Pennu Amcanion Llesiant – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4836A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant 4

Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 5

Sut a phryd y gwnaeth yr Awdurdod bennu ei amcanion llesiant 6

Yr hyn a ganfuom 7

Argymhellion 9

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano 11

# Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 56 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i elwa i'r eithaf ar eu cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.[1] Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant.[2] Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025.[3]

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: tymor hir, integreiddio, cyfranogi, cydweithio, ac atal.[4]

4 Gwnaethom ddylunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, fe wnaethom ystyried beth allem yn rhesymol ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu'u profiad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyriaeth o sut mae cyrff cyhoeddus yn rhoi eu dysgu ar waith a sut y gallant wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac yn dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad canlynol y Senedd.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- egluro sut y gwnaeth Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o bennu ei amcanion llesiant;
- darparu sicrwydd ynghylch y cwestiwn i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i'r Awdurdod wreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu neu adolygu amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Aethom ati i ateb y cwestiwn cyffredinol 'i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant?'. Gwnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau adolygu ac adrodd blynyddol priodol ar waith, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac fel y cynghorir mewn canllawiau statudol?
- A yw'r Awdurdod wedi ystyried gwybodaeth briodol a fyddai'n ei alluogi i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

8 Fe wnaethom drafod amseriad yr archwiliad gyda'r Awdurdod ac fe wnaethom addasu’r cyflwyniad i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol. Fe wnaethom gwblhau ein gwaith maes ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024.

9 Fe wnaethom gasglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal cyfweliad gyda swyddog sy'n ymwneud ag adolygu amcanion llesiant yr Awdurdod.

10 Roedd ein dull yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd gyda chyrff eraill oherwydd yr amgylchiadau y mae'r Awdurdod wedi'u hwynebu. Ym mis Chwefror 2024, ymyrrodd Gweinidogion Cymru i enwebu pedwar Comisiynydd i arfer swyddogaethau'r Awdurdod yn dilyn canlyniad Adolygiad Diwylliant yr Awdurdod. Gwnaeth hyn waredu aelodau o rolau y cawsant eu penodi iddynt eisoes gan y cyngor ac a oedd yn flaenorol yn gyfrifol am gymeradwyo amcanion yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod hefyd wedi wynebu trosiant sylweddol mewn rolau swyddogion allweddol ers cyhoeddi'r Adolygiad. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi cynnal llai o gyfweliadau na'n dull safonol. Lle gallai'r amgylchiadau fod wedi effeithio ar ein sylfaen dystiolaeth, rydym wedi nodi hynny yn y cyd-destun isod.

# Sut a phryd y gwnaeth yr Awdurdod bennu ei amcanion llesiant

11 Fe wnaeth yr Awdurdod bennu ei amcanion llesiant yn ei Gynllun Strategol, sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 2020 a 2030. Cymeradwyodd y Comisiynwyr Adroddiad Diweddaru Blwyddyn Pump ym mis Mawrth 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi themâu strategol yr Awdurdod, y mae'n eu hystyried fel ei amcanion llesiant. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan yr Awdurdod.

12 Mae'r Awdurdod hefyd yn cyhoeddi ei amcanion llesiant yn ei Gynllun Gwella Blynyddol. Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Mesur, ac y gwnaeth yn fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2024.

**Arddangosyn 1: Themâu strategol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2020-30**

| |
|---|
| **Eich cadw'n ddiogel**<br>Canolbwyntio ar waith atal i helpu i leihau'r angen i chi ein ffonio ni |
| **Ymateb i'ch argyfwng**<br>Sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen ni arnoch chi |
| **Gweithio gyda phartneriaid**<br>Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n diwallu eich anghenion |
| **Ymgysylltu a chyfathrebu**<br>Sicrhau bod ein holl gymunedau a'n staff yn rhan o'r broses o'n helpu ni i ddarparu gwasanaeth rhagorol |
| **Diogelu a gwella ein hamgylchedd**<br>Cynnal ein gweithgareddau mewn ffordd sy'n helpu i gynnal y blaned ar gyfer ein cenedlaethau'r dyfodol |
| **Defnyddio technoleg yn dda**<br>Ceisio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf lle y gall wella ein gwasanaeth i chi |

**Gwerthfawrogi ein pobl**
Cefnogi gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n awyddus i ddarparu ein gwasanaeth

**Parhau i weithio'n effeithiol**
Sicrhau bod ein gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac bod ei atebolrwydd yn glir

# Yr hyn a ganfuom

## Nid yw'r Awdurdod yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei gynllunio corfforaethol

### Y broses ar gyfer adolygu'r amcanion llesiant

13 Mae cylch cynllunio blynyddol yr Awdurdod yn adolygu ac yn ychwanegu amcanion gwella newydd i'r Cynllun Strategol. Mae'r Awdurdod wedi nodi ei ddull gweithredu o fewn Fframwaith Cynllunio Strategol. Mae hyn yn ddigon clir i gyfathrebu'r camau adolygu.

14 Mae proses yr Awdurdod yn canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Mesur ac nid yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r Awdurdod bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i fanteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn gwneud hi'n glir y dylai'r egwyddor ysgogi dylunio'r amcanion a bod wrth wraidd y broses gynllunio. Nod proses ac amseriad yr Awdurdod yw cynhyrchu amcanion gwella blynyddol a'r adroddiad perfformiad. Mae amcanion gwella yn cael eu mapio i'r amcanion llesiant dim ond ar ôl cael eu datblygu. O ganlyniad, nid oes digon o ganolbwyntio ar amcanion llesiant yr Awdurdod yn ystod y datblygiad. Mae hyn yn golygu nad yw'r broses yn asesu a yw amcanion llesiant yn parhau i fod yn briodol.

15 Er bod amcanion llesiant wedi'u cynnwys yn yr adolygiad, nid yw'n glir a yw hyn yn ystyrlon. Ers i'r Awdurdod gymeradwyo ei Gynllun Strategol yn 2020, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod i'r themâu strategol. Er y gallai hyn fod o ganlyniad i broses adolygu'r Awdurdod, nid yw'r Awdurdod wedi dangos hyn yn ei dystiolaeth. Gall hyn fod oherwydd y newidiadau o fewn yr Awdurdod yn ddiweddar. Mae hyn yn cynyddu'r ansicrwydd ynghylch a yw'r Awdurdod yn gwybod bod ei amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor.

## Defnyddio ffynonellau gwybodaeth mewnol i adolygu'r amcanion llesiant

16 Nid yw'r adnoddau a sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn cael eu hystyried yn glir gan yr Awdurdod yn ei adolygiad. Er bod swyddogion wedi nodi risgiau economaidd lefel uchel yn eu dadansoddiad strategol, nid oedd hyn yn fanwl nac yn gysylltiedig â pherfformiad neu gyd-destun ariannol gwirioneddol yr Awdurdod. Mae adolygiadau yn gyfle hanfodol i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau yn cael eu darparu i gyflawni amcanion. Mae hefyd yn gyfle i'r Awdurdod ystyried pa mor realistig yw amcanion. Ar hyn o bryd, ni all yr Awdurdod sicrhau ei hun bod ddigon o adnoddau i gyflawni ei amcanion. Gall hyn fod oherwydd diffyg tystiolaeth gan swyddogion a oedd yn gysylltiedig yn flaenorol.

17 Er bod swyddogion yn adrodd am weithgarwch i'r Awdurdod yn rheolaidd, nid yw'n glir sut mae hyn yn cysylltu â'i adolygiad o'i amcanion. Mae'r Awdurdod yn adrodd ar y dangosyddion statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei adroddiadau perfformiad. Mae hyn yn canolbwyntio ar fesurau gweithgaredd yn unig ac nid yw'n adrodd ar y canlyniadau tuag at amcanion yr Awdurdod. Mae hyn yn golygu nad oes tystiolaeth glir i asesu cynnydd neu adolygu amcanion. Trwy dystiolaeth a gasglwyd, nid yw'n glir sut mae unrhyw ddata perfformiad yn gysylltiedig ag amcanion fel rhan o'r adolygiad.

18 Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfleoedd i gasglu barn fewnol ar ei amcanion gwella bob blwyddyn. Mae gan yr uwch reolwyr a'r rheolwyr canol gyfleoedd i roi eu barn ar amcanion gwella arfaethedig a'r Cynllun Strategol. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod i gael amrywiaeth o safbwyntiau i ehangu ei sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor effeithiol yw'r trafodaethau hyn wrth adolygu amcanion llesiant yr Awdurdod.

## Defnyddio ffynonellau gwybodaeth allanol i adolygu'r amcanion llesiant

19 Nid yw'n glir sut mae'r Awdurdod yn defnyddio ei ddealltwriaeth o'i amgylchedd gweithredu strategol i adolygu ei amcanion. Er mwyn llywio ei fodelau strategol, defnyddiodd yr Awdurdod ar ystod o ffynonellau tystiolaeth briodol. Roedd hyn yn cynnwys yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol, Adroddiadau Thematig y Prif Gynghorydd Tân, a'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mae hyn yn dangos bod gan yr Awdurdod sail eang i asesu ei gyd-destun gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg sut y mae'r ddealltwriaeth hon wedi effeithio ar adolygu ei amcanion llesiant.

20 Nid yw'r Awdurdod yn glir sut mae cydweithio yn ymwneud â darparu i gyflawni ei amcanion. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi ystyried nac wedi nodi sut y bydd trefniadau cydweithredol yn helpu i gyflawni ei amcanion llesiant. O ganlyniad, nid yw'n glir sut mae'r Awdurdod yn sicrhau ei hun am gyfraniad ac atebolrwydd partneriaid. Mae cael dull cynllunio o gydweithio yn helpu partneriaid i ddeall eu cyfrifoldebau, eu hymrwymiad, ac yna i fod yn atebol am ganlyniadau.

21 Nid oedd yr Awdurdod yn cynnwys yn effeithiol y cymunedau a wasanaethwyd ganddo i lywio ei adolygiad. Ymgynghorodd â'r cyhoedd ar-lein fel ei brif ddull o’u cynnwys. Derbyniodd yr Awdurdod 212 ymateb, a dim ond 51% ohonynt a ymatebodd o ran a oeddent yn cytuno â'r themâu strategol. Dim ond pedwar ymateb oedd yn Gymraeg ac roedd 135 (64%) naill ai'n gyflogai neu'n aelodau o'r Awdurdod. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor gynrychioliadol oedd yr ymgynghoriad. Gallai hyn olygu efallai nad yw effaith amcanion yr Awdurdod ar rai cymunedau wedi’i deall yn llawn, gan gyfyngu ar eu llwyddiant o bosibl.

22 Mae'r Awdurdod wedi ystyried effaith rhai newidiadau deddfwriaethol i lywio ei adolygiad. Mae newidiadau diweddar i'r gyfraith erbyn hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod geisio consensws gydag undebau llafur cydnabyddedig neu gyfaddawdu â nhw.[5] Ymatebodd yr Awdurdod drwy ofyn am arweiniad allanol a gan gynnwys hyn yn ei broses adolygu cynllunio. Arweiniodd hyn at yr Awdurdod yn ychwanegu camau gweithredu at ei gynllun diwygiedig. Mae hyn yn dangos bod yr Awdurdod yn ymateb yn ymwybodol i newidiadau allanol.

# Argymhellion

**Cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy**

A1 Wrth adolygu neu bennu amcanion llesiant yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod gymhwyso’r ffordd y mae’n cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai ystyried yr egwyddor yn fwy clir a’i chyfannu i brosesau cynllunio corfforaethol i sicrhau ei bod yn cael canolbwynt clir. I wneud hyn dylai'r Awdurdod:

- 1.1 - Sicrhau bod ganddo broses sy'n dangos yn glir sut mae amcanion llesiant wedi'u cynllunio i fanteisio i’r eithaf ar ei gyfraniad at nodau llesiant cenedlaethol yn hytrach na chael eu hysgogi gan y broses amcan gwella.
- 1.2 - Cymryd safbwynt tymor hwy ar bennu ac adolygu ei amcanion llesiant.
- 1.3 - Adolygu effeithiolrwydd ei weithgaredd ymgysylltu. Er mwyn helpu hyn, dylai nodi ac ystyried dulliau newydd i sicrhau ei fod yn gynnwys yr amrywiaeth lawn o gymunedau a wasanaethir ganddo.
- 1.4 - Sicrhau bod prosesau herio a chraffu priodol ar ei adolygiad i ddarparu goruchwyliaeth i'r broses.
- 1.5 - Ystyried sut orau i gydweithio â phartneriaid yn ei adolygiad, sylfaen dystiolaeth, a chyflawni ei amcanion llesiant.

**Adnoddau**

[5] Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gwneud hyn yn ofynnol gan yr holl gyrff y mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu cynnwys.

A2 Wrth adolygu neu bennu amcanion llesiant yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod ystyried yn gliriach ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod amcanion yr Awdurdod yn gyflawnadwy ac yn realistig.

**Perfformiad**

A3 Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau i ddeall effaith a chanlyniadau ei weithredoedd. Dylai hyn helpu i ddangos sut mae camau gweithredu yn cyfrannu at gyflawni ei amcanion llesiant. Dylid adrodd hyn yn rheolaidd i uwch arweinwyr a chomisiynwyr er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i lywio’n proses o gasglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ein harchwiliadau egwyddorion datblygu cynaliadwy, a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a’u llywiwyd gan gyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set ddarluniadol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gallai da edrych.

| **I ba raddau y mae’r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu ei amcanion llesiant?** |
| --- |
| **A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau adolygu ac adrodd blynyddol priodol ar waith, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac fel y cynghorir mewn canllawiau statudol?** |

| | |
|---|---|
| **A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau adolygu ac adrodd blynyddol priodol ar waith, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac fel y cynghorir mewn canllawiau statudol?** | • Mae'r Awdurdod yn adrodd ar ei amcanion llesiant yn flynyddol, gan nodi asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol.<br>• Mae'r Awdurdod wedi cynllunio trefniadau adolygu priodol a chymesur sy'n adlewyrchu ei gylch cynllunio. Gall hyn gynnwys adolygu'r amcanion i raddau amrywiol ar draws cylchoedd blynyddol.<br>• Lle bo angen, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi newidiadau i'w amcanion llesiant. |
| **A yw'r Awdurdod wedi ystyried gwybodaeth briodol a fyddai'n ei alluogi i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r Awdurdod wedi ystyried ffynonellau gwybodaeth mewnol i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | • Mae'r Awdurdod yn ystyried sut y gallai newidiadau i'w adnoddau effeithio ar ei amcanion llesiant ac unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen arno o ganlyniad.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio ei wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys ei berfformiad yn erbyn ei amcanion llesiant ond hefyd gwybodaeth ehangach fel monitro gwasanaethau.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu y mae wedi'u cyflawni neu a allai fod ar gael gan ei bartneriaid. – p'un ai'n gynradd, yn uwchradd neu'n gyfuniad – gan adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae'r Awdurdod yn cynnwys pobl allweddol o bob rhan o'r sefydliad yn y broses.<br>• Mae'r broses o herio a chraffu'n briodol ar wybodaeth perfformiad ac unrhyw newidiadau i'r amcanion llesiant, ac mae hynny'n cael ei hystyried mewn unrhyw ddiwygiadau. |

| | |
|---|---|
| **A yw'r Awdurdod wedi ystyried ffynonellau gwybodaeth allanol i benderfynu i ba raddau y mae'r amcanion yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | • Mae'r Awdurdod yn ystyried gwybodaeth allanol berthnasol am newidiadau yn y cyd-destun allanol i'w helpu i ddeall anghenion, risg a chyfleoedd newydd a phosibl a allai effeithio ar ei amcanion llesiant. Mae hyn yn debygol o ddod o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Gwybodaeth am dueddiadau, gan gynnwys adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol<br>– Adroddiad(au) Llesiant Cymru<br>– Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru – Asesiadau'n Seiliedig ar Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru<br>– Asesiadau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Asesiadau poblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – Canlyniadau ymarferion ymgysylltu/ymgynghori lleol<br>• Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i benderfynu a yw'r amcanion llesiant yn dal i fod yn briodol. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethau Gweinidogol, y Rhaglen Lywodraethu a llythyrau cylch gwaith, lle bo hynny'n berthnasol.<br>• Mae'r corff yn ystyried bod newidiadau i'r nodau llesiant yn angenrheidiol.<br>• Mae'r Awdurdod wedi ystyried sut y bydd yn ymdrin â gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a'i newidiadau i nodau llesiant cenedlaethol. |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.